# Asesiad Effaith Cydraddoldeb
Fersiwn un, dyddiad: 20/05/2025

**Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Ysgolion Cynradd a Gynhelir) (Cymru) 202[X**

Asesiad o'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig ar yr effaith ar gydraddoldeb

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

**Beth sy'n cael ei ystyried**

Ers i'r Rheoliadau cyfredol gael eu cyflwyno, Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013, mae argymhellion deietegol Llywodraeth y DU wedi'u diwygio yn dilyn cyngor a gyhoeddwyd i bedair Llywodraeth y DU gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar Reoliadau a Chanllawiau Statudol perthnasol wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion cynradd sy'n nodi pa fwyd a diodydd y gellir eu cynnig mewn ysgolion – bydd yn digwydd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025. Y bwriad yw gosod y Rheoliadau ym mis Rhagfyr 2025, ac i rhain ddod i rym yn y flwyddyn ariannol 2026-27.

Bydd ymgynghoriad hefyd ar Ganllawiau Drafft (Pennod 1) ar gyfrifoldeb dros hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym mis Mai-Gorffennaf 2025, gyda fersiwn derfynol ar wahân yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2025. Cynhelir galwad ehangach am dystiolaeth ym mis Mai-Gorffennaf 2025 i gefnogi'r gwaith parhaus i ddiweddaru Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd ond ni fydd y rhain yn cael eu gosod nac yn dod i rym yn ystod tymor y Senedd hwn.

**Nod Polisi**

Mae ein hysgolion yn fannau pwysig lle mae plant yn treulio tua 40% o'u horiau effro, sy'n helpu i lunio arferion bwyta gydol oes a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae'r cam pwysig hwn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi plant ac achosion o blant yn mynd heb fwyd, yn helpu dysgwyr i gyflawni, ac yn cyfrannu at iechyd gwell, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ysgolion a chymunedau ledled Cymru.
Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig:

- Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd
- Llaeth am ddim ac am bris gostyngol mewn Ysgolion
- Brecwast am ddim i ddisgyblion cynradd
- Prydau ysgol am ddim i'r disgyblion uwchradd sydd eu hangen fwyaf

Mae gwasanaeth prydau bwyd â thâl hefyd ar gael mewn ysgolion uwchradd.

Rydym yn ymrwymedig i wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau yn Nghymru: O adroddiad Gordewdra yng Nghymru rydym yn gwybod ar hyn o bryd:

- Mae un o bob pedwar o blant oedran derbyn yn dechrau'r ysgol yn byw gyda gordewdra neu bwysau gormodol
- Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol-economaidd uwch yn wynebu cyfraddau uwch o broblemau pwysau
- Nid yw diet llawer o blant yn bodloni argymhellion cenedlaethol

Er bod llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd plant, mae tystiolaeth yn dangos bod gofynion bwyd a safonau maeth cadarn, a roddir ar waith fel rhan o ddull ysgol gyfan, yn gallu gwella arferion deietegol yn sylweddol. Mae atgyfnerthu'r safonau hyn yn gam hollbwysig i sicrhau bod bwyd mewn ysgolion yn llywio ymddygiadau bwyta'n iach gydol oes ac yn gwella canlyniadau iechyd a deilliannau addysg.

Mae ymcwhil Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos fod bwyd ysgol yn gallu:

- Codi cyflawniad addysgol
- Helpu i ddatblygu arferion bwyta'n iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Mynd i'r afael ag achosion o blant yn mynd heb fwyd a thlodi plant
- Gwella sefyllfa ariannol teuluoedd

Rydym am i bob dysgwr ddeall pwysigrwydd deiet maethlon ac effaith ei ddewisiadau ar ei iechyd a'i lesiant corfforol, a datblygu ymddygiadau cadarnhaol a gwybodus sy'n gwella eu hiechyd, eu gallu i gyflawni, eu hwyliau cyffredinol, a'u lefelau egni.

Bydd diweddaru’r Rheoliadau felly’n cefnogi ein nod o greu “Cymru Iachach” - cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn ffynnu a lle mae'n dod yn haws gwneud dewisiadau iachach.

Mae’r Rheoliadau a’r Canllawiau cysylltiedig drafft wedi’u selio ar argymhellion dietegol diweddara Llywodraeth y DU – rydym wedi gweithio gyda dysgwyr, rhieni, ysgolion. cyrff llywodraethu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, deietegwyr, arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd, arolygwyr Estyn ac ymchwilwyr academaidd I sicrhau fod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at fwyd iachach yn yr Ysgol.

Nod ein dull diwygiedig yw:

- Helpu pob plentyn i gael gafael ar y bwyd sydd ei angen arno i ddilyn deiet iach, gan gynnwys plant ag anghenion deietegol arbennig neu feddygol
- Darparu dognau sy'n briodol i oedran
- Helpu ysgolion, arlwywyr a phartneriaid i roi'r rheoliadau newydd hyn ar waith
- Cydbwyso bwydydd iachach â chadw hoff fwydydd yn yr ysgol
- Nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion a'u helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon

Ochr yn ochr â'n nod i wella canlyniadau addysg ac iechyd, a lleihau tlodi aelwydydd a phlant, mae uchelgeisiau tymor hwy i gefnogi cynhyrchu bwyd lleol, cynaliadwy. Gallai'r newidiadau hyn gynyddu'r cyflenwad o fwyd Cymreig ar blât yr ysgol a helpu i gryfhau ein Heconomi Sylfaenol.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod nifer o risgiau mewn perthynas ag anghydraddoldebau a allai gael eu gwaethygu trwy ddiweddaru'r Rheoliadau a'r Canllawiau pe bai'r defnydd o fwyd ysgol yn lleihau oherwydd nad yw dysgwyr yn hoffi'r bwydlenni newydd.

Ysgolion Cynradd

Mae'r cam hwn o'r gwaith yn canolbwyntio ar ddiweddaru Rheoliadau a chefnogi Canllawiau Statudol ar gyfer ysgolion cynradd. Mae diweddaru'r Rheoliadau i asio'n agosach ag argymhellion dietegol cyfredol y DU yn ffordd effeithiol o gyflawni bwriad y polisi o helpu plant i gael mynediad at y bwyd a'r ddiod sydd eu hangen arnynt i gael diet iach a chyrraedd eu potensial, gan gynnwys y rhai sydd â gofynion dietegol arbennig neu rai a ragnodir yn feddygol.

I gefnogi'r gwaith datblygu polisi sy'n angenrheidiol i adolygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau cyfredol, sefydlwyd grwpiau arbenigol Gorchwyl a Gorffen. Adolygodd y grwpiau hyn y gofynion bwyd, diod a maeth cyfredol ar gyfer ysgolion cynradd yn seiliedig ar argymhellion dietegol y DU. Ystyriasant hefyd y canllawiau cyfredol sy'n cefnogi hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan fyfyrio ar arfer gorau a sut y gellid diffinio rolau a chyfrifoldebau yn gliriach.

Er bod y ffocws ar gyflawni'r canlyniadau iechyd gorau, ystyriodd y grwpiau hefyd gyflenwadwyedd a phoblogrwydd y cynnig bwyd mewn ysgolion yn y dyfodol, yn ogystal â sut y gallai hyn effeithio ar gynaliadwyedd a hyfywedd gwasanaethau bwyd ysgolion yng Nghymru. Helpodd gwaith y grŵp i lunio diwygiadau arfaethedig i ofynion bwyd ysgolion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a llywio drafftio Canllawiau Statudol ategol. Mae'r newidiadau allweddol arfaethedig yn cynnwys:

- Cynnig mwy o ffrwythau a llysiau er mwyn helpu plant yng Nghymru i fwyta pump y dydd
- Cynnwys carbohydradau startshlyd (fel grawn cyflawn) am fod tystiolaeth yn awgrymu nad yw plant yng Nghymru yn bwyta digon o ffeibr
- Cyfyngu ar fwydydd crwst, pwdinau a nwyddau pob wedi'u melysu, a bwydydd wedi'u ffrio yn seiliedig ar y cyngor deietegol diweddaraf
- Teilwra meintiau dognau yn ôl grŵp oedran, a allai leihau gwastraff bwyd
- Darparu llai o gig wedi'i brosesu a chyfyngu ar ddewisiadau wedi'u prosesu yn lle pysgod a chig a all gynnwys llawer o halen a braster dirlawn
- Diogelu cig coch yn gymedrol er mwyn sicrhau bod plant yn cael budd o'r maethynnau y mae'n eu cynnig

- Gwahardd diodydd llawn siwgr, sy'n gysylltiedig â gordewdra a phydredd dannedd

Ynghyd â'r cynnig sylfaenol cyffredinol, mae diweddaru'r Rheoliadau yn rhoi cyfle pellach i gynyddu mynediad at fwyd iachach, cefnogi datblygiad arferion bwyta iach, a sicrhau bod dewisiadau iachach yn haws i'w gwneud. Gall methu â sicrhau bod ysgolion yn meithrin dietau iach ac yn darparu prydau maethlon gael canlyniadau sylweddol i iechyd a datblygiad plant. Ar ben hynny, mae esgeuluso mynediad at brydau iach yn tanseilio amcanion deddfwriaethol a pholisi ehangach Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Gwyddom fod y cynnig cynradd cyffredinol wedi cynyddu'r galw am ddietau arbennig mewn ysgolion cynradd ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at gynnig bwyd iach a maethlon yn yr ysgol, waeth beth fo'u hanghenion gofal iechyd. Gwyddom hefyd nad yw'r Canllawiau presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol â phryd y dylid darparu bwyd a diod a ystyrir yn 'gofynion dietegol a ragnodir yn feddygol', yn ogystal ag ystyriaethau dietegol perthnasol eraill. Felly, mae'r maes hwn hefyd wedi'i ystyried fel rhan o'n hadolygiad.

Ysgol Uwchradd

Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud i adolygu'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r cyd-destun yn wahanol i'r un mewn ysgolion cynradd gan fod y rhan fwyaf o'r gwasanaeth bwyd yn eitemau 'cymryd a mynd' a ddarperir yn ystod egwyl y bore ac amser cinio. Mae angen dull gwahanol ar gyfer ysgolion uwchradd, gyda chefnogaeth tymor byr yn ofynnol i helpu'r ddarpariaeth uwchradd i wella, a mwy o ddata yn ofynnol ar arferion bwyta i ddeall yn llawn ble y gellir gwneud yr effaith fwyaf i weithio tuag at ddarpariaeth iachach dros y tymor canolig i'r tymor hir. Mae gwasanaeth bwyd yn cael ei lunio gan amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- Plant yn dod i'r ysgol yn llwglyd ar ôl colli brecwast.
- Disgyblion ddim eisiau aros tan amser cinio i fwyta.
- Cyfleoedd cyfyngedig i eistedd i lawr a bwyta pryd o fwyd oherwydd cyfyngiadau maint/gofod bwyta.
- Egwyliau cinio llai lle mae amser i fwyta a chiwiau hir am wasanaeth yn cystadlu ag amser ar gyfer cymdeithasu/clybiau amser cinio.
- Mae ystod eang o ddewisiadau ganol bore a chinio y gellir eu prynu mewn cyfuniadau diderfyn yn ei gwneud hi'n anodd cydbwyso o ran maeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Rheoliadau ar gyfer ysgolion uwchradd trwy gasglu mwy o wybodaeth a data, yn ogystal ag ymgymryd ag ymgysylltu ychwanegol trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus. O ystyried ein dealltwriaeth ni, a'r pwysigrwydd a roddir gan bobl ifanc ar faterion ymreolaeth o ran dewisiadau bwyd, mae angen mwy o amser arnom i glywed barn pobl ifanc ar fwyd ysgolion uwchradd. Byddwn yn cynnal

galwad am dystiolaeth ar fwyd ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, ni fydd Rheoliadau wedi'u diweddaru ar gyfer ysgolion uwchradd yn cael eu gosod yn nhymor y Senedd hwn. Bydd y Rheoliadau presennol a'r Canllawiau cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

### Data Lefel Disgyblion gan Gymru ar gyfer 2024 (disgyblion yn y Dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1 i 6)

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD)
*Mae'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi'u diogelu dros dro

| Nodwedd | Nifer y disgyblion | Nifer y disgyblion eFSM | % sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | % yr holl ddisgyblion eFSM (67,586) sydd â'r nodwedd | % y rheini â'r nodwedd ac sy'n eFSM o'r boblogaeth ysgol gyfan (236,986) | % y disgyblion â'r nodwedd o'r boblogaeth ysgol gyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ADY/AAA | 26,975 | 12,011 | 44.5 | 17.8 | 5.1 | 11.4 |
| | | | | | | |
| BAME | 35,903 | 10,369 | 28.9 | 15.3 | 4.4 | 15.1 |
| GRT | 1,060 | 722 | 68.1 | 1.1 | 0.3 | 0.4 |
| Cymysg | 9,849 | 3,126 | 31.7 | 4.6 | 1.3 | 4.2 |
| Asiaidd | 7,601 | 1,189 | 15.6 | 1.8 | 0.5 | 3.2 |
| Du | 4,550 | 1,279 | 28.1 | 1.9 | 0.5 | 1.9 |
| | | | | | | |
| Benywaidd | 115,807 | 33,201 | 28.7 | 49.1 | 14.0 | 48.9 |
| Gwrywaidd | 121,179 | 34,385 | 28.4 | 50.9 | 14.5 | 51.1 |

Bydd adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach a'r canllawiau cysylltiedig yn cael effaith gadarnhaol ar dros 235,000 o ddysgwyr oedran cynradd a fydd yn cael cyfle i gael mynediad at fwyd iachach a all gefnogi datblygiad arferion bwyta iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â diet gwael. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn gyda'r potensial i gael effaith fwy ar blant sy'n byw mewn anfantais gymdeithasol-economaidd gan eu bod yn fwy tebygol o fod yn byw gyda gordewdra. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cyfleoedd i'r polisi hwn leihau anghydraddoldebau yn dibynnu'n fawr ar lefel y defnydd.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai rhai grwpiau o ddysgwyr a theuluoedd deimlo unrhyw effeithiau negyddol yn anghymesur yn fwy nag eraill, gan gynnwys plant anabl, rhai plant o leiafrifoedd ethnig, rhai plant â chredoau crefyddol penodol a phlant sy'n byw mewn anfantais gymdeithasol-economaidd os na chaiff eu

hanghenion eu hystyried wrth ddatblygu polisïau a dylunio bwydlenni. Felly, bydd ein hymgynghoriad yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant â nodweddion gwarchodedig a bydd y Canllawiau'n gwneud gofynion cliriach ar gyfer addasiadau, darparu dietau arbennig a sut i ddylunio bwydlenni cynhwysol.

Er enghraifft, mae bron i 27,000 o ddysgwyr wedi'u cofnodi fel rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysg Arbennig ac efallai y bydd angen addasu'r fwydlen neu gymorth bwyta ychwanegol ar rai i gael mynediad at y ddarpariaeth prydau bwyd a gallai gael eu heffeithio'n negyddol os na all yr awdurdod lleol neu'r ysgol barhau i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Yn ogystal, efallai bod gan blant o rai lleiafrifoedd ethnig a grwpiau crefyddol yng Nghymru arferion bwyta a gofynion bwyd gwahanol na fyddant o bosibl yn cael eu hystyried wrth ddylunio bwydlenni newydd. Gallai hyn effeithio'n anghymesur ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig o bryd ysgol i blant o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol.

Os bydd llai o ddysgwyr yn dewis cael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i'r newidiadau i'r fwydlen i gydymffurfio â'r Rheoliadau newydd, gallai hyn hefyd effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel. Mae CYBLD 2024 yn dangos bod dros 67,500 o ddysgwyr oedran cynradd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar brawf modd (a ddefnyddir yn helaeth fel dirprwy ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol) neu sydd wedi'u diogelu'n drawsnewidiol.

Pe bai nifer y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gostwng ar gyfer y garfan hon, gallai gael effaith ariannol ar deuluoedd a fyddai angen prynu darpariaethau i roi pecyn cinio i'w plant ac efallai y byddai'n rhaid iddynt leihau gwariant mewn meysydd eraill hefyd, fel gwresogi a hanfodion eraill, a allai gael effaith negyddol ar blant a'u teuluoedd. Gallai fod effaith ar iechyd hefyd os yw'r plant yn dewis peidio â chael pryd bwyd sydd wedi'i gytbwys o ran maeth a gallai arwain at effaith negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol, yn ogystal â lleihau ymgysylltiad â gweithgareddau cymunedol, addysg a diwylliannol - gan ehangu anghydraddoldebau.

Mae ffigurau CYBLD ar gyfer 2024 hefyd yn dangos bod plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phlant ag ADY/AAA yn gymwys yn anghymesur i gael prydau ysgol am ddim a allai eu rhoi dan anfantais hyd yn oed yn fwy na'r rhai nad ydynt yn gymwys.

Er mwyn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, mae ein Canllawiau diwygiedig yn ei gwneud yn glir bod gan ysgolion ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn y rhai sydd â nodwedd warchodedig, a allai fod oherwydd crefydd neu gred, a'u bod yn rhaid iddynt weithio gyda'r dysgwr a'i deulu i ystyried y gefnogaeth neu'r addasiadau angenrheidiol mewn perthynas â'r ddarpariaeth bwyd ysgol.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i ddeall ymddygiadau a allai effeithio ar y ddarpariaeth yn well ac i nodi rhwystrau a chyfleoedd ar lefel leol, i gefnogi gweithredu effeithiol a chyfartal a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu nodi.

Rhestrir ystyriaethau pellach a chamau lliniaru isod, a byddem yn croesawu adborth ar yr effeithiau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Mae diweddaru'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pob disgybl oedran cynradd – gan gynnig pryd bwyd cytbwys o ran maeth sy'n adlewyrchu argymhellion dietegol diweddaraf Llywodraeth y DU.<br><br>Mae tystiolaeth yn dangos y gall safonau maeth, fel rhan o ddull ysgol gyfan i fwyd gael effaith gadarnhaol ar fwyta bwyd a diodydd iach tra bod plant yn yr Ysgol. Gall hefyd feithrin arferion dietegol iachach | Mae tystiolaeth yn dangos bod dros 1 o bob 4 o blant yn dechrau'r ysgol gyda phwysau gormodol neu ordewdra yng Nghymru.<br><br>Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach 2020 i ddiwygio'r Rheoliadau i helpu plant i gael mynediad at y bwyd sydd ei angen arnynt ar gyfer diet iach. Mae gwneud hynny'n gyfle i gynnig pryd ysgol sy'n gytbwys o ran maeth, gan feithrin arferion dietegol iachach yn gynnar mewn bywyd sy'n parhau trwy gydol eu hoes.<br><br>Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwaith i ddiwygio'r Rheoliadau a'r Canllawiau wedi llywio ein penderfyniad i gasglu mwy o ddata ac ymgysylltu â dysgwyr cyn cyflwyno newidiadau i fwyd ysgolion | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro sut mae'n cael ei weithredu, - bydd hyn yn ein galluogi i ddeall a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu nodi.<br><br>Byddwn hefyd yn casglu data ar ddefnydd/dewisiadau bwyd mewn ysgolion uwchradd i lywio ble gall newidiadau gael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Bydd y Rheoliadau presennol a'r Canllawiau cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | sy'n parhau trwy fywyd yr unigolyn.<br><br>Efallai y bydd risg na fydd rhai dysgwyr oedran cynradd yn manteisio ar y cynnig bwyd oherwydd y dewis a'r math o brydau bwyd a gynigir a'u parodrwydd i roi cynnig ar fwydydd newydd/gwahanol.<br><br>Gallai peidio â diweddaru'r Rheoliadau a'r Canllawiau ar gyfer Ysgolion Uwchradd ar yr un pryd arwain at anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth cynradd ac uwchradd, gyda dysgwyr hŷn (11-18 oed) yn methu â chael mynediad at bryd bwyd ysgol sy'n adlewyrchu argymhellion dietegol diweddaraf Llywodraeth y DU. | uwchradd. Mae'n arbennig o bwysig bod effaith unrhyw newidiadau posibl i fwyd ysgolion uwchradd yn cael ei ddeall ymhellach ar gyfer plant â nodweddion gwarchodedig. Heb wneud hyn yn gyntaf mae risg o beidio â chyflawni ein hamcanion polisi. | |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
| --- | --- | --- | --- |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi, neu sut y gellid ei ddefnyddio’n rhagweithiol i ddileu, y rhwystrau sy’n analluogi pobl sydd â gwahanol fathau o namau) | Bydd cynigion polisi yn cael effaith gadarnhaol ar blant anabl. Mae bylchau yn y Canllawiau presennol nad oeddent yn mynd i'r afael yn ddigonol â pha fwyd a diod a ystyrir yn 'ofynion dietegol a ragnodir yn feddygol' neu pryd y dylid darparu addasiadau eraill wedi cael eu mynd i'r afael â nhw.<br><br>Bydd Canllawiau wedi'u diweddaru yn cefnogi hawliau dysgwyr i gael pryd ysgol os oes ganddynt ddeiet arbennig neu a ragnodir yn feddygol oherwydd eu hanabledd neu gyflwr iechyd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant anabl. | Adroddir bod gan 26,975 o ddysgwyr oedran cynradd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysg arbennig (AAA). Gallai mwy o ddysgwyr hefyd fod yn niwroamrywiol ac efallai y bydd angen addasiadau arnynt neu byddant yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at fwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen addasiadau i ddiwallu eu hanghenion.<br><br>O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o ran cael mynediad at brydau bwyd lle bo'n briodol. | Byddwn yn gweithio'n agos gydag arweinwyr arlwyo i ddeall effeithiau'r canllawiau ar gael mynediad at y cynnig bwyd ysgol i blant anabl.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda dietegydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gefnogi awdurdodau lleol fel bod penderfyniadau ar gymorth ychwanegol i gael mynediad at ddarpariaeth yn cael eu gwneud yn gyson.<br><br>Mae Canllawiau Diwygiedig yn ei gwneud yn glir bod gan ysgolion ddyletswydd i beidio â gwahaniaethu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn y rhai sydd â nodwedd warchodedig, a allai |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn anabl oherwydd eu namau ond oherwydd y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn cael gwared ar rwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. Am ragor o wybodaeth, ewch i’r fewnrwyd a chwiliwch am ‘y model cymdeithasol’.

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | Bydd risg fach yn parhau y gallai plant anabl gael eu heffeithio'n negyddol os na all yr ysgol ddiwallu eu hanghenion penodol – gofynion dietegol/mynediad at gyfleusterau. | | fod oherwydd crefydd neu gred, a'u bod yn rhaid iddynt weithio gyda'r dysgwr a'i deulu i ystyried y gefnogaeth neu'r addasiadau angenrheidiol mewn perthynas â darpariaeth bwyd yr ysgol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro sut maer' rheoliadau'n cael eu gweithrediad i'n galluogi ymhellach i ddeall a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu nodi. |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o newid rhyw a phobl Drawsryweddol) | Ar hyn o bryd mae tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw effaith ar y grŵp hwn | | |
| | Ar hyn o bryd mae tystiolaeth | | |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | gyfyngedig o unrhyw effaith ar y grŵp hwn | | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Efallai bod gan rai lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru arferion bwyta gwahanol na fyddant o bosibl yn cael eu hystyried wrth ddylunio bwydlenni newydd i weithredu'r Rheoliadau drafft. Gallai hyn olygu nad yw rhai plant lleiafrifoedd ethnig yn manteisio ar y cynnig o bryd ysgol.<br><br>Mae rhai teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn anfantais gymdeithasol-economaidd, felly os nad yw plentyn lleiafrif ethnig yn manteisio ar y cynnig o bryd yn yr ysgol, gallai hyn effeithio'n | Roedd gan blant a gategoreiddiwyd fel 'Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd' gyfran uwch yn ystadegol arwyddocaol o blant a gategoreiddiwyd fel rhai â gordewdra o'i gymharu â phlant 'Gwyn'.<br><br>Dangosodd cyfrifiad y DU fod 70.8% o oedolion du dros bwysau neu'n byw gyda gordewdra o'i gymharu â 63.8% o'r holl oedolion.<br><br>O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd i beidio â gwahaniaethu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o ran cael mynediad at brydau bwyd lle bo'n briodol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn dylunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion ac arferion bwyta eu cymuned leol, a dylai hyn ystyried | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro'r gweithrediad a'n galluogi ymhellach i ddeall unrhyw ofynion sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i ddylunio bwydlenni sy'n ystyried ac yn ymgysylltu â'u cymunedau lleol, yn enwedig lleiafrifoedd ethnig. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | anghymesur ar eu mynediad at fwyd.<br><br>Bydd diwygio'r Canllawiau yn cefnogi cydraddoldeb darpariaeth ledled Cymru i ddysgwyr a theuluoedd sy'n gofyn am addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | anghenion lleiafrifoedd ethnig. | |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Bydd diwygio'r Canllawiau yn cefnogi cydraddoldeb darpariaeth ledled Cymru i ddysgwyr a theuluoedd sy'n gofyn am addasiadau rhesymol oherwydd credoau diwylliannol neu grefyddol eu plentyn.<br><br>Fodd bynnag, mae effaith negyddol bosibl i ddysgwyr sy'n dilyn dietau | O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd i beidio â gwahaniaethu. Bydd hyn yn sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o ran cael mynediad at brydau bwyd lle bo'n briodol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn dylunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion ac arferion bwyta eu cymuned leol, a dylai hyn ystyried anghenion grwpiau crefyddol. | Mae awdurdodau lleol yn parhau i allu dylunio bwydlenni sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau ac mae ganddynt ddisgresiwn i ddarparu dewisiadau amgen i'r rhai sy'n gofyn am addasiadau. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai argaeledd a chost fod yn rhwystr i ddarparu darpariaethau penodol i ddysgwyr i ddiwallu eu |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
| --- | --- | --- | --- |
| | crefyddol os ydynt yn teimlo nad ydynt yn gallu cael mynediad at eitemau bwyd penodol, fel cig Halal neu kosher, sydd yn ei dro yn golygu nad ydynt yn manteisio ar y cynnig pryd bwyd. Efallai na fydd dietau crefyddol yn cael eu hystyried wrth ddylunio bwydlenni chwaith. | | hanghenion dietegol, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn dietau crefyddol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro'r gweithrediad a'n galluogi ymhellach i ddeall unrhyw ofynion sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd. |
| Rhyw / Rhywedd | Gan fod cyfraddau gorbwysau neu ordewdra yn gyffredinol yn uwch mewn bechgyn nag mewn merched, mae'n debygol y bydd diwygio'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig yn cael effaith fwy cadarnhaol ar wrywod.<br><br>Gobeithir y gall annog a darparu | O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd i beidio â gwahaniaethu yn ôl rhyw.<br><br>Mae cyfraddau gorbwysau neu ordewdra yn uwch mewn bechgyn yn gyffredinol nag mewn merched.<br><br>Mae menywod yn fwy tebygol o brofi problemau neu anhwylderau bwyta na dynion. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro'r gweithrediad a'n galluogi ymhellach i ddeall unrhyw ofynion sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a nodwyd. |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| | diet iach o oedran ifanc helpu i gefnogi gwell perthynas â bwyd. | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Ar hyn o bryd mae tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw effaith ar y grŵp hwn | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ar hyn o bryd mae tystiolaeth gyfyngedig o unrhyw effaith ar y grŵp hwn | | |
| Aelwydydd incwm isel | Mae adolygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr o gartrefi dan anfantais gymdeithasol-economaidd drwy ddarparu pryd bwyd cytbwys o ran maeth iddynt a allai gefnogi ein huchelgais i leihau | Mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n byw mewn ardaloedd o anfantais economaidd-gymdeithasol uwch yn wynebu cyfraddau uwch o broblemau pwysau.<br><br>Mae hyn yn peri'r pryder mwyaf i'n dysgwyr oedran cynradd gan fod tystiolaeth yn dangos[2] bod cyfraddau tlodi ar eu huchaf mewn aelwydydd â phlant iau.<br><br>Yn ogystal, mae data PLASC 2024 yn dangos | Mae cyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol mewn ysgolion cynradd yn darparu pwynt ffocws a chyfle i barhau i wella'r cynnig bwyd ysgol. Mae tystiolaeth yn dangos rôl bwysig gofynion bwyd a safonau maeth fel rhan o ddull ysgol gyfan o wella arferion dietegol plant, codi |

[2] Ending-poverty-in-early-years-CYFCymraeg.pdf

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | anghydraddoldebau iechyd.<br><br>Gallai fod effaith negyddol bosibl hefyd os na fydd dysgwyr o gartrefi incwm isel yn manteisio ar y cynnig ar rai dyddiau oherwydd y newidiadau arfaethedig.<br><br>O ran ysgolion uwchradd, dangosodd ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad fod arferion bwyta yn wahanol i arferion bwyta mewn lleoliadau cynradd ac felly ystyriwyd bod y risg o unrhyw effeithiau negyddol y gallai unrhyw newidiadau uniongyrchol i'r Rheoliadau eu cael ar ddysgwyr yn rhy uchel.<br><br>Felly, yn y tymor byr, ni fydd dysgwyr ysgol uwchradd o deuluoedd o gartrefi incwm isel | bod 67,586 o ddysgwyr oedran cynradd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n seiliedig ar brawf modd (a ddefnyddir yn helaeth ar draws y Llywodraeth fel dirprwy ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol) neu wedi'u diogelu yn ystod y cyfnod pontio.<br><br>Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach 2020 i ddiwygio'r Rheoliadau. Mae hyn yn gyfle i gynnig pryd ysgol sy’n gytbwys o ran maeth, gan leihau'r anghydraddoldebau iechyd hynny sy'n gysylltiedig â diet gwael. | cyrhaeddiad a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r cyfleoedd i wella iechyd ac arferion bwyta dysgwyr wedi'u hystyried yn ofalus ochr yn ochr â'r risg y gallai llai o ddysgwyr fanteisio ar y cynnig bwyd ysgol os nad ydynt yn hoffi'r bwydlenni newydd. I liniaru'r risg hon, bydd ymgynghori'n benodol â phlant ysgol gynradd ar y gofynion bwyd a'r safonau maeth diwygiedig hyn a bydd gweithgaredd ymgysylltu wedi'i dargedu i ddysgwyr ddeall eu barn a'u hanghenion yn well.<br><br>Byddwn yn cynnal galwad am dystiolaeth ar fwyd ysgol uwchradd yn ystod y cyfnod ymgynghori i ddeall arferion yn well trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a phobl |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | yn gallu cael mynediad at gynnig bwyd sy'n adlewyrchu argymhellion dietegol diweddaraf Llywodraeth y DU. | | ifanc. Yn y cyfamser, bydd y Rheoliadau presennol a'r Canllawiau cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol sy'n golygu bod bwyd iach ar gael mewn ysgolion uwchradd, er nad yw'n adlewyrchu argymhellion diweddaraf y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni allweddol i fonitro'r gweithrediad a'n galluogi ymhellach i ddeall a lliniaru anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu nodi. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau wedi'i fabwysiadu wrth ddatblygu'r gofynion bwyd newydd i gynyddu hawl plant i gael mynediad at fwyd iach. | Nid oes gan ddiweddaru'r Rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig unrhyw effaith ar Erthyglau 2 – 14, na'r protocolau canlynol o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:<br>• Protocol 1, Erthyglau 1 (yr hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon) a 3 (yr hawl i etholiadau rhydd).<br>• Protocol 13, Erthygl 1 (diddymu'r gosb eithaf). | Mae AEHP llawn wedi’i ddatblygu |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Ni fydd unrhyw effeithiau negyddol ar Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir o ganlyniad i adolygu'r Rheoliadau a'r Canllawiau cysylltiedig. Bydd gan unigolion sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau i bryd ysgol iach.